Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Gymraeg y Cwm
Jersey Road
Bonymaen
SA1 7DL

23/07/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Gorffennaf 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Y Cwm yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i gynnal trafodaethau gyda'r pennaeth a'r llywodraethwyr, siarad â disgyblion a staff, arsylwi addysgu a dysgu, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar arddangosfeydd a samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Mireinio gweithdrefnau hunanwerthuso fel eu bod yn hwylus i'w gweithredu ac yn ddigon miniog i alluogi arweinwyr i adnabod yn union yr agweddau penodol sydd angen eu gwella

- Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi cryfhau'r prosesau hunanwerthuso drwy gyflwyno rhaglen fwy systematig o weithgareddau monitro sy'n canolbwyntio'n well ar safonau a chynnydd disgyblion.
- Erbyn hyn, mae arweinwyr yn defnyddio ystod ehangach o dystiolaeth uniongyrchol sy'n eu cefnogi i adnabod cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella.
- Mae arweinwyr wedi rhannu cyfrifoldebau monitro'n fwy effeithiol ar draws yr uwch dîm arwain a'r staff addysgu ac wedi cryfhau'r systemau olrhain cynnydd disgyblion, sy'n dechrau eu cefnogi i werthuso cynnydd yn fwy pwrpasol. Er hyn, nid yw rôl yr holl randdeiliaid yn y prosesau wedi ei datblygu'n llawn. Yn ogystal, mae rôl y llywodraethwyr yn y prosesau hunanwella yn parhau i fod yn gyfyngedig.
- Yn gyffredinol, mae arweinwyr wedi gwneud cynnydd addas wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i werthuso effaith lawn y prosesau ar safonau addysgu a dysgu.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

## Sicrhau bod athrawon yn darparu profiadau dysgu penodol i ddisgyblion ddysgu am, a gwerthfawrogi, cyfoeth hanes a daearyddiaeth eu hardal leol

- Mae arweinwyr wedi sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer datblygu dealltwriaeth disgyblion o hanes a daearyddiaeth eu hardal leol. Maent wedi sicrhau bod profiadau dysgu cyfoethog yn adeiladu'n fwriadus ar ddysgu blaenorol disgyblion ac yn ennyn eu diddordeb yn llwyddiannus.
- Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd dysgu pwrpasol sy'n ystyried y cyd-destun lleol yn dda ac yn cefnogi disgyblion i ymchwilio'n fanwl i nodweddion naturiol, hanesyddol a diwylliannol yr ardal. Mae adborth gan ddisgyblion a rhieni yn llywio'r cynllunio'n effeithiol, gan sicrhau bod y cwricwlwm yn adlewyrchu'r gymuned leol yn llwyddiannus.
- Mae'r gwaith hwn wedi meithrin balchder a pherchnogaeth gref ymhlith staff a disgyblion o'u cynefin. Mae'r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o dreftadaeth a hanes eu hardal yn ogystal a dyfnhau eu dealltwriaeth o'i nodweddion ffisegol a dynol. Maent yn gweithredu fel llysgenhadon brwdfrydig dros eu hardal ac yn rhannu eu gwybodaeth yn hyderus gyda'r gymuned trwy bodlediadau, cyfryngau cymdeithasol ac arddangosfeydd.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6702245

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol